Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Romilly**

**Cartref Nyrsio Romilly**
**9 Romilly Road**
**Caerdydd**
**CF5 1FH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Romilly

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Oakville Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 73 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16/10/2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Gall cartref nyrsio Romilly letya 73 o breswylwyr gydag amrywiaeth o anghenion gofal nyrsio a gofal personol. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ddirybudd. Mae rheolwr newydd yn ei le, sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Rita Patel yw unigolyn cyfrifol y gwasanaeth. Mae digon o staff ar gael i ddarparu gofal ac i helpu i roi trefniadau addas ar waith i unioni'r sefyllfa os bydd unrhyw brinder.

Mae'r rheolwr, yr arweinydd clinigol a'r Unigolyn Cyfrifol yn weladwy ac yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r rhan fwyaf o systemau ar waith i sicrhau ansawdd y gofal a chymorth a ddarperir. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau. Mae angen gwella'r ddogfennaeth gofal sy'n adlewyrchu anghenion gofal ac iechyd y bobl sy'n byw yn y cartref ymhellach. Mae'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyffredinol, a chynhelir hyfforddiant ychwanegol ar feysydd penodol.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas, ond gwnaethom nodi rhai ardaloedd yn y cartref y dylid rhoi sylw iddynt. Mae angen gwneud gwelliannau i'r prosesau rheoli heintiau er mwyn lleihau'r risg o ledaenu clefydau heintus drwy'r cartref.

## Llesiant

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael gofal a chymorth priodol ar y cyfan ac mae'r staff yn gweithredu dull cyfeillgar. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol a dywedodd y bobl wrthym, er bod y staff yn garedig ac yn barchus, y bu rhai achlysuron lle bu'n rhaid iddynt aros am gymorth am fod y staff yn brysur. Mae'r ddogfennaeth gofal a ddefnyddir i gefnogi'r broses o ddarparu gofal a chymorth wedi newid i system electronig. Mae angen cryfhau'r system hon i gynnwys unrhyw risgiau a nodwyd ac unrhyw newidiadau i iechyd/ymddangosiad y bobl. Caiff y bobl eu hannog i gael ymwelwyr â'r cartref a dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym, *"Staff are helpful." "I am happy here."*

Ar y cyfan, mae mesurau ar waith i hyrwyddo safonau ymarfer da yn y cartref, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau i'r mesurau atal a rheoli heintiau yn unol â'r Canllawiau Iechyd Cyhoeddus. Ers yr arolygiad blaenorol, penodwyd rheolwr newydd sy'n dangos goruchwyliaeth dda o ddigwyddiadau a damweiniau, yn ogystal â chwynion a materion diogelu. Mae datganiad o ddiben ar gael, ac mae'n adlewyrchu'r cartref. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae angen gwneud gwelliannau i'r amgylchedd er mwyn cefnogi'r bobl i gyflawni llesiant cadarnhaol. Byddai'r cartref yn cael budd o fesurau cadw tŷ da i sicrhau nad oes arogleuon annymunol yn y cartref. Mae'r bobl yn cael budd o ardaloedd personol a chymunedol digonol. Mae'r tîm rheoli wedi nodi meysydd i'w gwella yn amgylchedd y cartref, gan gynnwys archwiliadau a gwiriadau diogelwch a gynhelir. Bydd hyn yn sicrhau bod y cartref yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gydag amserlen o waith adnewyddu ac ailaddurno ar fin dechrau.

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i hwyluso'r gweithrediadau dyddiol, er mwyn helpu'r cartref i redeg yn ddidrafferth. Mae strwythur rheoli clir ar waith, sy'n cael ei amlinellu yn y datganiad o ddiben. Mae systemau a phrosesau mewnol ar waith er mwyn goruchwylio anghenion datblygiadol y staff, i sicrhau eu bod yn cynnal y sgiliau a'r wybodaeth i roi gofal yn ddiogel. Mae ymarferion archwilio a rheoli ansawdd mewnol ar waith sy'n cynnwys ceisio adborth gan y bobl sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth. Roedd yr adborth a gawsom, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae gwasanaeth eirioli ar gael i'r bobl os bydd angen ac mae mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant parhaus. Dengys y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn ffeiliau'r bobl y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol ac y cysylltir â nhw. Gwelsom fod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud mewn modd amserol a phryd bynnag y byddai anghenion y bobl yn newid. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion am ddewisiadau'r bobl, a gwelsom fod y staff a'r tîm rheoli yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r dewisiadau hyn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi lle y byddai modd gwella'r ddogfennaeth ymhellach. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei hadolygu a'i diweddaru pan gaiff ei symud i'r system electronig newydd. Gwelsom nad oedd nifer o'r cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol am sut y dylid darparu gofal i'r bobl.

Mae'r bobl yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau i gynnal eu hiechyd a'u llesiant yn barhaus. Mae'r ddogfennaeth y gwnaethom edrych arni yn dangos y caiff y bobl eu cefnogi i gael gafael ar gyfleusterau gofal iechyd, gan gynnwys gweld optegydd, deintydd, podiatrydd ynghyd â meddygon teulu. Gwelsom y staff gofal yn dangos gwybodaeth dda am ddymuniadau ac anghenion y bobl a sut y dylid ymateb iddynt. Drwy gydol yr ymweliad, gwelsom y bobl yn eistedd yn yr ardaloedd cymunedol gan sgwrsio neu ymgymryd â gweithgareddau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai o'r bobl a oedd yn aros yn eu hystafelloedd eu hunain wedi dweud wrthym “*I find the days very long, there is not a lot to do here”.* Gwnaethom drafod y mater hwn gyda'r rheolwr a ddywedodd wrthym ei fod am recriwtio trydydd cydlynydd gweithgareddau er mwyn trefnu gweithgareddau un i un ar gyfer y bobl sy'n dewis aros yn eu hystafelloedd eu hunain.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom fod iaith y corff ac ystumiau'r bobl yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel ymysg y staff gofal sy'n eu cefnogi. Er hyn, gwnaethom nodi lle y gellid gwneud gwelliannau mewn perthynas â rhoi staff ar waith o amgylch y cartref er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael cymorth mewn modd amserol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth. Ymysg y sylwadau gan y bobl sy'n defnyddio’r gwasanaeth roedd *“The food is good, we are looked after here”* (preswylydd) a *“Staff are kind I can’t grumble, but they are sometimes very busy”.* (preswylydd). Mae systemau ar waith i sicrhau bod y bobl yn parhau'n ddiogel wrth hybu eu hannibyniaeth. Mae polisi diogelu ar gael sy'n rhoi gwybod i'r staff am eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu, a bod unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol wedi cael eu nodi.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylan a gwelsom y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol yn ôl yr angen.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y bobl ymdeimlad o berthyn. Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli gydag eitemau o ddewis y bobl a'u heiddo personol. Mae ardal fwyta agored fawr yn ogystal ag ardal gymunedol, a gall pobl ag anghenion symudedd fynd i mewn ac allan ohonynt yn hwylus. Fodd bynnag, ers yr arolygiad diwethaf rydym wedi nodi lle y mae angen gwneud gwelliannau yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol; mae angen rhoi sylw i'r ystafelloedd ymolchi, mae'r coridorau a rhai ardaloedd o'r cartref yn dangos ôl traul  o ganlyniad i natur brysur y gwasanaeth.  Gwnaethom drafod ein canfyddiadau gyda'r tîm rheoli a ddywedodd wrthym fod amserlen waith yn mynd rhagddi sy'n cynnwys paentio'r coridorau, gwaith ailwampio cyffredinol yn y cartref, ac gwaith sydd ar fin dechrau i adnewyddu'r ystafelloedd ymolchi. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau yn ei gylch.

Gall y bobl fod yn hyderus, ar y cyfan, bod trefniadau effeithiol yn y cartref a fydd yn amddiffyn diogelwch y cyhoedd ac yn lleihau'r risg o groes-heintio. Er hyn, gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn cael gwared ar eitemau personol a oedd wedi eu storio'n amhriodol yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol. Gwnaethom hefyd weld bod angen gosod amddiffynwyr rheiliau gwely newydd. Roedd y rheolwr yn cytuno â'r canfyddiadau a dywedodd wrthym y byddai'n ymdrin â'r mater ar unwaith.

Gwnaethom ystyried rhai cofnodion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, a oedd yn dangos bod y darparwr yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Ar ben hyn, gwelsom dystiolaeth yn y ddogfennaeth bod y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod ein hymweliad wedi cael eu nodi gan y darparwr a'u cofnodi'n briodol. Roedd yr holl ffeiliau cyfrinachol, gan gynnwys ffeiliau gofal a ffeiliau'r staff, yn cael eu storio'n ddiogel mewn ardaloedd dan glo. Caiff gwiriadau diogelwch amrywiol sy'n gysylltiedig â thân eu cynnal ac mae gan y preswylwyr gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae asesiad risg diogelwch tân ac mae'r staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelwch tân a chymorth cyntaf.

Mae gan bob ardal o'r cartref ardal fwyta a lolfa ei hun. Fodd bynnag, caiff prydau bwyd y rhan fwyaf o'r bobl eu rhoi iddynt yn yr ardal fwyta gymunedol fawr sydd ar y llawr gwaelod ar hyn o bryd. Dywedodd y darparwr wrthym ei fod yn bwriadu ailddechrau'r arfer o fwyta ar bob llawr unigol ar ôl cwblhau'r amserlen ailwampio. Gwnaethom wylio'r profiad bwyta a gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ond byddai angen gwneud rhagor o welliannau er mwyn sicrhau bod amser cymdeithasol ymlaciol ar gael i'r bobl ei fwynhau. Dyfarnwyd sgôr o bump (da iawn) i'r cartref gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu cefnogi i fyw mewn amgylchedd diogel. Mae'r fynedfa i'r cartref yn ddiogel ac mae'n rhaid i ymwelwyr ganu'r gloch er mwyn cael mynediad. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cyflenwadau a chyfarpar, fel nwy, trydan a gwasanaethau lifft, yn cael eu goruchwylio a'u cynnal a'u cadw. Dywedodd y darparwr wrthym y byddai'r gwaith gofynnol sydd wedi'i drefnu ym mhob rhan o'r cartref yn cael ei gwblhau dros sawl mis, a byddwn yn ystyried hyn yn yr ymweliad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio anghenion hyfforddi a goruchwylio'r staff. Mae'r staff gofal yn elwa ar gyfleoedd dysgu a datblygu a ddarperir a gwelsom dystiolaeth bod y staff gofal wedi ymgymryd â chyrsiau hyfforddiant gorfodol yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant gofynnol ychwanegol. Caiff y staff eu cefnogi i gofrestru â'r cyrff proffesiynol fel Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mae'r bobl yn cael budd o'r arweinyddiaeth a'r rheolwr sydd newydd ei benodi sy'n cefnogi'r broses o redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn treulio amser yn y cartref ac yn rhyngweithio â'r staff, y perthnasau a'r preswylwyr er mwyn ceisio adborth. Gwnaethom ofyn am wybodaeth mewn perthynas â'r broses fonitro, a gwelsom yr adroddiad monitro ansawdd o fis Mawrth 2024, a oedd yn nodi'r meysydd i'w gwella, a nodwyd gan y darparwr. Mae'r wybodaeth yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymgymryd â'r broses fonitro yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Mae'r systemau a'r prosesau sydd ar waith yn helpu i hyrwyddo'r gwaith o redeg y cartref yn ddidrafferth. Mae archwiliadau clinigol ac anghlinigol manwl ar waith mewn perthynas â meysydd allweddol o'r broses ddarparu gwasanaeth, gan gynnwys maeth, meddyginiaeth a gofal croen. Gwelsom fod y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu a'i dadansoddi fel rhan o'r adroddiad ar ansawdd y gofal a gaiff ei lunio bob chwe mis. Mae'r tîm rheoli yn gweithio gydag asiantaethau allanol ac yn rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr am unrhyw ddigwyddiadau mewn modd amserol. Ond gwnaethom nodi nad oedd un awdurdodiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael ei roi ar waith fel sy'n ofynnol, i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu i les pennaf y bobl. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn goruchwylio hyn ac y byddai'n mynd i'r afael â'r mater ar unwaith.

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn a gwneud cwynion. Mae polisi cwynion ar waith yn y cartref ac mae'r canllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth yn hysbysu'r bobl o'r ffordd i godi eu pryderon yn ffurfiol. Ar y cyfan, mae dulliau ar waith i ddiogelu'r bobl ac mae'r dogfennau sydd ar waith yn nodi'r gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei gael ac yn esbonio'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon a gall y bobl gael gafael ar eiriolwyr annibynnol os byddant yn dymuno gwneud hynny a theimlo'n ddiogel wrth wneud hynny os bydd angen.

Dywedodd y staff gofal wrthym fod y nyrsys a'r staff gofal yn gweithio'n dda fel tîm a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n dda iawn gan y tîm rheoli. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym *"I enjoy my job, it is very busy at times but in a good way",* dywedodd aelod arall o'r staff wrthym *"I feel valued but feel we could do with another pair of hands at time".*

Caiff y staff gofal a'r staff nyrsio eu neilltuo i ardaloedd penodol o'r gwasanaeth er mwyn sicrhau parhad gofal i'r bobl. Fodd bynnag, gwnaethom drafod ardaloedd lle gellid gwneud gwelliannau i sicrhau nad yw'r bobl yn disgwyl am gymorth, drwy ddirprwyo'r staff yn briodol ym mhob rhan o'r cartref. Cytunodd y rheolwr a dywedodd wrthym ei bod yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwelliannau gofynnol yn cael eu cwblhau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan fod angen cynnal a chadw'r gwasanaeth yn lân i safon sy’n briodol at y diben y caiff ei ddefnyddio. | Newydd |
| 21 | Mae angen i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y bobl yn cael yr help sydd ei angen arnynt yn ystod amseroedd bwyd yn unol â chynlluniau personol y bobl | Heb Gyflawni |
| 59 | Rhaid i'r cofnodion gofal gael eu cadw'n gyfredol i ddiogelu'r bobl y mae'r staff yn gofalu amdanynt | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/08/2024